# Llamu Ymlaen – Y Gweithlu – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3042A2022

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gall hefyd oleuo astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn i reoli ei weithlu, ond mae angen iddo wneud yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n ganolog i'w ystyriaethau wrth iddo ddiweddaru ei strategaeth ar gyfer y gweithlu.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn i reoli ei weithlu, ond mae angen iddo gofleidio'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n llawn wrth iddo ddiweddaru ei strategaeth ar gyfer y gweithlu 6

Mae gan y Cyngor weledigaeth glir a threfniadau cynllunio effeithiol ar gyfer ei weithlu ond wrth iddo adnewyddu ei strategaeth ar gyfer y gweithlu bydd angen iddo sicrhau bod hon yn cael ei phennu'n llawn gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy 6

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni ei strategaeth gyfredol ar gyfer y gweithlu, mae ganddo ddealltwriaeth dda am yr heriau cyfredol ac mae'n ymdrin â'r effaith y mae'r pandemig yn ei chael ar ei weithlu 8

Mae gan y Cyngor drefniadau i fonitro ac adolygu ei weithlu ac er ei fod yn ymgysylltu â sefydliadau eraill i rannu gwybodaeth a phrofiad, ychydig o enghreifftiau sydd o feincnodi gweithredol ac ystyrlon 9

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Fe wnaethom adolygu'r modd y mae'r Cyngor yn cynllunio'n strategol ar gyfer ei ofynion o ran y gweithlu yn awr ac yn y dyfodol, sut y mae'n monitro'i weithlu a sut y mae'n adolygu ac yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau.

2 Fe gyflawnom ni'r adolygiad hwn wrth i'r byd symud yn ei flaen, gan ddefnyddio'r profiadau o bandemig byd-eang COVID-19, i fwrw golwg ar y modd y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a chymunedau.

3 Pan ddechreuom ni ein gwaith archwilio dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 roeddem yn cydnabod y byddai'n cymryd amser i gyrff cyhoeddus wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond fe wnaethom hefyd nodi ein disgwyliad dros y tymor canolig y byddai cyrff cyhoeddus yn gallu dangos sut y mae'r Ddeddf yn trefnu'r hyn y maent yn ei wneud. Mae bellach bron yn saith mlynedd ers pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac rydym bellach yn yr ail gyfnod adrodd ar gyfer y Ddeddf. Felly, byddem yn disgwyl yn awr i gyrff cyhoeddus fod yn gallu dangos bod y Ddeddf yn rhan annatod o'u ffordd o feddwl a'i bod wir yn trefnu'r hyn y maent yn ei wneud.

4 O dan y Ddeddf, rhaid i gynghorau gyflawni datblygu cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. I wneud rhywbeth yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy mae'n ofynnol i'r Cyngor weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. I weithredu felly, rhaid i'r Cyngor ystyried y pum ffordd o weithio: hirdymor, integreiddio, cynnwys, cydweithio ac atal. Mae canllawiau statudol ar y Ddeddf yn pwysleisio pwysigrwydd cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i saith gweithgaredd sefydliadol craidd, gan gynnwys cynllunio'r gweithlu.

5 Roedd tri phrif nod i'r prosiect hwn:

- cael sicrwydd bod cynghorau'n rhoi trefniadau ar waith i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau;
- egluro'r camau gweithredu y mae cynghorau'n eu cymryd yn unigol ac ar y cyd i gryfhau eu trefniadau yn ogystal â gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach; ac
- ysbrydoli cynghorau a sefydliadau eraill i gryfhau eu trefniadau ymhellach trwy gofnodi a rhannu enghreifftiau o arfer a gwersi nodedig a gwneud argymhellion priodol.

6 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2021, gan adolygu dogfennau allweddol y Cyngor a siarad gyda swyddogion ac aelodau etholedig y Cyngor.

7 Ar ddiwedd mis Mawrth 2021, roedd y Cyngor yn cyflogi bron i 10,000 o bobl. O ran staff cyfwerth ag amser llawn (CagALl), mae'r Cyngor yn cyflogi 33.6 o staff CagALl am bob 1,000 o drigolion sy'n fwy na'r cyfartaledd o 32.4 ar gyfer holl Gynghorau Cymru.

## Yr hyn a ganfuom

8 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A yw dull strategol y Cyngor o reoli ei weithlu'n helpu'r Cyngor mewn modd effeithiol i gryfhau ei allu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu ei wasanaethau yn y tymor byr a hwy?

9 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: mae gan y Cyngor drefniadau cadarn i reoli ei weithlu, ond mae angen iddo wneud yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n ganolog i'w ystyriaethau wrth iddo ddiweddaru ei strategaeth ar gyfer y gweithlu. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor weledigaeth glir a threfniadau cynllunio effeithiol ar gyfer ei weithlu ond wrth iddo adnewyddu ei strategaeth ar gyfer y gweithlu bydd angen iddo sicrhau bod hon yn cael ei phennu'n llawn gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy;
- mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni ei strategaeth gyfredol ar gyfer y gweithlu, mae ganddo ddealltwriaeth dda am yr heriau cyfredol ac mae'n ymdrin â'r effaith y mae'r pandemig yn ei chael ar ei weithlu; ac
- mae gan y Cyngor drefniadau i fonitro ac adolygu ei weithlu ac er ei fod yn ymgysylltu â sefydliadau eraill i rannu gwybodaeth a phrofiad, ychydig o enghreifftiau sydd o feincnodi gweithredol ac ystyrlon.

## Argymhellion

**Arddangosyn 1: argymhelliad**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhelliad yr ydym wedi'i adnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Argymhelliad** |
|---|
| A1 Estyn data rheoli'r gweithlu sy'n bodoli eisoes i gynnwys meincnodi cymharol gyda sefydliadau eraill i oleuo gwaith cynllunio a chryfhau'r modd y mae mentrau o ran y gweithlu'n cael eu hasesu. |

# Adroddiad manwl

## Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn i reoli ei weithlu, ond mae angen iddo gofleidio'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n llawn wrth iddo ddiweddaru ei strategaeth ar gyfer y gweithlu

### Mae gan y Cyngor weledigaeth glir a threfniadau cynllunio effeithiol ar gyfer ei weithlu ond wrth iddo adnewyddu ei strategaeth ar gyfer y gweithlu bydd angen iddo sicrhau bod hon yn cael ei phennu'n llawn gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy

#### Pam ei bod yn bwysig pennu gweledigaeth glir

10 Mae strategaeth glir ar gyfer ei weithlu a chynlluniau cyflawni wedi'u datblygu'n dda'n bwysig i sicrhau gweithlu effeithlon ac effeithiol dros y tymor byr a hwy. Mae hefyd yn bwysig adnabod sut y mae strategaeth y gweithlu'n cyd-fynd ac wedi'i hintegreiddio â strategaethau perthnasol eraill, gan gynnwys rheoli asedau, digidol a lleihau carbon. Gall dysgu o'r newidiadau a achoswyd gan bandemig byd-eang COVID-19 helpu cynghorau i gryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau.

11 Canfuom fel a ganlyn:

- sefydlodd y Cyngor sylfaen gadarn ar gyfer cynllunio'r gweithlu pan nododd weledigaeth a blaenoriaethau eglur ar gyfer ei weithlu o fewn ei Strategaeth Adnoddau Dynol 2017-22. Mae dwy gonglfaen strategol i'r Strategaeth Adnoddau Dynol gyfredol: Pobl a Pherfformiad; a Datblygu Sefydliadol. Tanategir y conglfeini strategol gan bum thema allweddol ar gyfer gweithredu:
  – datblygu gweithlu hyblyg ac ystwyth sy'n rhannu gwybodaeth sefydliadol;
  – recriwtio a chadw'r dalent orau i greu gweithlu amrywiol;
  – datblygu arweinwyr a rheolwyr;
  – galluogi gweithlu ymgysylltiol ac ymrwymedig sy'n perfformio i lefel uchel; a hefyd
  – cefnogi iechyd a llesiant i gynyddu presenoldeb i'r uchaf.
- mae gan y Cyngor Gynllun eglur ar gyfer y Gweithlu 2017-22 hefyd a adolygwyd ddiwethaf yn 2020. Mae Cynllun y Gweithlu'n darparu cysylltiadau clir â blaenoriaethau'r Strategaeth Adnoddau Dynol ac mae camau gweithredu wedi cael eu dyrannu i swyddogion.

- fel cyrff eraill yn y sector cyhoeddus, mae'r Cyngor wedi bod yn canolbwyntio ar ymateb i'r pandemig ac ar barhau i ddarparu gwasanaethau allweddol. Mae'r pandemig wedi cael effaith ddigynsail ac uniongyrchol ar weithlu'r Cyngor gan y bu'n rhaid i'r Cyngor fynd ati'n gyflym i alluogi 3,000 o staff a arferai weithio mewn swyddfeydd i weithio gartref. Mae'r pandemig wedi cyflymu cynlluniau gweithredol gyda staff yn newid i ddulliau mwy ystwyth o weithio.
- yn ystod y pandemig, mae'r Cyngor wedi ennyn ymgysylltiad ei staff i ddeall eu hymatebion i weithio gartref, eu llesiant a sut y gallai'r Cyngor gefnogi ei staff, ac yn fwy diweddar eu dewisiadau o ran trefniadau gweithio.
- mae gan y Cyngor broses hunanwerthuso flynyddol ar lefel gwasanaethau sydd wedi hen ymwreiddio, ac a fydd yn helpu i drefnu gwaith cynllunio'r Cyngor. Mae'r broses hon yn galluogi'r Cyngor i gael dealltwriaeth glir am: y gofynion a'r pwysau cyfredol o ran y gweithlu; hyd a lled ac effaith bosibl heriau yn y dyfodol; a'r camau gweithredu ac adnoddau i liniaru'r heriau hynny.
- bydd angen i strategaeth Adnoddau Dynol bum mlynedd bresennol y Cyngor a'i gynllun pum mlynedd ar gyfer y gweithlu gael eu hadolygu eleni. Nid yw'r Cyngor wedi datblygu cynlluniau tymor hwy ar gyfer ei weithlu gan ei fod, yn naturiol, wedi bod yn blaenoriaethu heriau uniongyrchol y pandemig. Mae'r Cyngor yn derbyn bod ei orwel cynllunio wedi cael ei fyrhau i'r angen uniongyrchol ers pandemig COVID-19 ond mae'n bwriadu ailddechrau estyn ei gyfnod cynllunio'r gweithlu tuag at bum i ddeng mlynedd.
- wrth iddo ystyried ei ddull strategol o reoli ei weithlu, mae angen i'r Cyngor sicrhau bod yr ystyriaethau hyn yn cael eu pennu gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Er enghraifft trwy:
  - wreiddio ymagwedd sy'n meddwl am yr hirdymor ac ystyriaeth i dueddiadau tymor hwy o fewn ei drefniadau presennol. Er enghraifft, gallai proses hunanwerthuso'r Cyngor gael ei chryfhau trwy estyn yr heriau yn y dyfodol agos i nodi'n benodol ei bod yn ofynnol ystyried y tymor hwy hefyd. Wedyn mae angen i'r ystyriaethau tymor hwy hyn ar gyfer trefniadau gwasanaethau oleuo datblygiad ei strategaeth.
  - sicrhau bod ei waith cynllunio'r gweithlu dros y tymor hwy'n cael ei integreiddio'n llawn â strategaethau datblygol eraill y Cyngor ar gyfer asedau a digidol;
  - archwilio cyfleoedd gyda phartneriaid i gydweithio ar drefniadau'r gweithlu a datblygu datrysiadau rhanbarthol i heriau rhanbarthol.
- mae'r Cyngor wedi ymgysylltu'n dda ac wedi gweithredu ar yr ymgysylltu hwnnw â'i weithlu dros y cyfnod diweddar, er enghraifft:
  - cael dros 2,000 o ymatebion i arolwg o weithio gartref ymhlith staff ym mis Mai 2020 – gyda 78% yn nodi eu bod yn dymuno gweithio gartref o leiaf 50% o'r amser a 2% yn nodi nad oes arnynt eisiau gweithio gartref o gwbl;

- cael 2,200 o ymatebion i arolwg llesiant ym mis Rhagfyr 2020 – gyda'r Cyngor yn ymateb trwy gyhoeddi mwy o ganllawiau a rhoi mwy o gymorth i'w reolwyr gweithredol, a dechrau archwilio mwy o gymorth i staff sy'n profi trawma a symptomau COVID-19 hir; a hefyd
- 1,500 o ymatebion i arolwg o drefniadau gweithio ym mis Rhagfyr 2021 – byddai'n well gan 81% o gyfranogwyr weithio gartref bob amser neu'n aml. Ymateb y Cyngor oedd parhau â threfniant lle mae staff yn gweithio gartref lle y bo'n bosibl; adolygu'r penderfyniad i atal y polisi gweithio hyblyg; a dechrau cyflwyno system archebu ar draws y Cyngor ar gyfer ystafelloedd cyfarfod i wella cydweithio.

- mae angen i'r Cyngor barhau i ymgysylltu'n effeithiol â'i weithlu fel rhan o'r broses o adnewyddu ei Strategaeth Adnoddau Dynol.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni ei strategaeth gyfredol ar gyfer y gweithlu, mae ganddo ddealltwriaeth dda am yr heriau cyfredol ac mae'n ymdrin â'r effaith y mae'r pandemig yn ei chael ar ei weithlu

12 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- fe ymatebodd y Cyngor yn chwim i'r heriau a'r amgylchedd a oedd yn newid yn gyflym yn ystod pandemig byd-eang COVID-19. Fe wnaeth y cyfyngiadau symud ym mis Mawrth 2020 hi'n ofynnol i 3,000 o staff a oedd yn gweithio mewn swyddfeydd yn flaenorol newid i weithio gartref. Yn naturiol mae hyn wedi arwain at roi cynlluniau gweithredol a threfniadau newydd ar waith yn gyflymach nag a fwriadwyd yn flaenorol.
- mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol i reoli ei weithlu ac i adweithio'n gyflym i ffyrdd newydd o weithio ar gyfer staff. Mae'r Cyngor yn defnyddio'i werthusiadau blynyddol ar lefel gwasanaethau i asesu'r heriau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu y mae'n eu hwynebu ac y bydd yn eu hwynebu yn y tymor byr ac mae'n cyflwyno cynigion ar gyfer gwella.
- mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da i gyflawni ei strategaeth gyfredol ar gyfer y gweithlu a themâu allweddol:
  - ym mis Medi 2021, fe wnaeth y Cyngor gyflwyno'r system llesiant staff, Llesiant gyda Cari. Gall staff sy'n defnyddio'r system hunanasesu eu llesiant eu hunain gan ddefnyddio offeryn deallusrwydd artiffisial a gallant gael eu cyfeirio at adnoddau cefnogol perthnasol. Mae data cyffredinol ar gael o'r system hefyd sy'n galluogi'r Cyngor i fonitro ac asesu ei gwerth a'i heffaith.
  - roedd adroddiad chwarterol y Cyngor ar berfformiad i'w Gabinet ym mis Tachwedd 2021 yn nodi lefelau cynyddol o absenoldeb oherwydd salwch ar draws pob rhan o'r sefydliad. Un o themâu allweddol ei strategaeth ar gyfer y gweithlu yw cynyddu presenoldeb y gweithlu i'r

eithaf. Mae trefniadau'r Cyngor yn ei gwneud yn bosibl mesur a rheoli absenoldeb oherwydd salwch trwy system Vision y Cyngor. Mae'r system TGCh hon yn amlygu materion i'w gwneud yn bosibl rheoli'r gweithlu'n effeithiol. Hefyd, gall timau Iechyd Galwedigaethol ac Adnoddau Dynol arbenigol y Cyngor roi cymorth wedi'i deilwra i unigolion i leihau lefelau absenoldeb oherwydd salwch. Mae data salwch y Cyngor yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan ei uwch reolwyr a'i Gabinet.

– roedd adroddiad chwarterol y Cyngor ar berfformiad i'w Gabinet ym mis Tachwedd 2021 yn nodi lefelau cynyddol o drosiant staff. Nid yw hyn yn unigryw i'r Cyngor. Un o'r themâu allweddol yn ei strategaeth ar gyfer y gweithlu yw recriwtio a chadw ei staff. Fel rhan o hyn, mae'n gwneud y canlynol:
  – datblygu cynlluniau prentisiaeth;
  – ailddylunio'i strwythur sefydliadol i un sy'n rhoi anogaeth i gadw staff a chynllunio ar gyfer olyniaeth, ac sy'n darparu llwybr gyrfa clir ar gyfer staff; ac
  – ym mis Ionawr 2022 fe gynyddodd y Cyngor ei gyfradd tâl i'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer yr holl weithwyr gofal cymdeithasol, yn rhai a gyflogir yn uniongyrchol gan y Cyngor ac yn rhai a gyflogir yn allanol.

## Mae gan y Cyngor drefniadau i fonitro ac adolygu ei weithlu ac er ei fod yn ymgysylltu â sefydliadau eraill i rannu gwybodaeth a phrofiad, ychydig o enghreifftiau sydd o feincnodi gweithredol ac ystyrlon

### Pam ei bod yn bwysig adolygu'r gweithlu'n effeithiol

13 Dylai cynghorau ddefnyddio data i fonitro pa un a ydynt yn cyflawni eu deilliannau bwriadedig yn effeithiol ac yn effeithlon dros y tymor byr a hwy. Mae defnyddio data meincnodi'n gallu darparu mewnwelediad defnyddiol i berfformiad unigol cynghorau ac yn gallu adnabod cyfleoedd i ddysgu oddi wrth sefydliadau eraill.

14 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- mae'r Cyngor yn defnyddio'i werthusiadau blynyddol ar lefel gwasanaethau i fonitro ac adolygu heriau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu. Mae Prif Weithredwr y Cyngor yn arwain proses Cyngor cyfan i asesu a herio'r gwerthusiadau hyn sy'n arwain at ddealltwriaeth eang, dda am faterion y gweithlu. Mae'r Uwch Dîm Rheoli'n ystyried materion a heriau mewn perthynas â'r gweithlu hefyd.
- mae Cabinet y Cyngor yn cael adroddiadau chwarterol ar berfformiad sy'n rhoi manylion perfformiad y Cyngor i aelodau etholedig o safbwynt ariannol a

gweithredol. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am drosiant staff, absenoldeb oherwydd salwch a risgiau strategol.

- mae trefniadau'r Cyngor yn dangos ei ymwybyddiaeth o bwysau mewn perthynas â'r gweithlu. Roedd cofrestr risgiau strategol y Cyngor, y cyflwynwyd adroddiad arni i'w Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Tachwedd 2021, yn cynnwys pryderon mewn perthynas â'r gweithlu ynghylch recriwtio a chadw staff yn y Gwasanaethau Plant.
- mae swyddogion y Cyngor yn cwrdd â chyfarwyddwyr Adnoddau Dynol eraill ar draws sector cyhoeddus Cymru i rannu gwybodaeth a phrofiad.
- mae'r Cyngor yn cyfrannu data at yr arolwg blynyddol o'r gweithlu a reolir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ond nid yw'n cyfrannu at ymarferion i gymharu data ar berfformiad sy'n gysylltiedig â'r gweithlu.
- er bod swyddogion y Cyngor yn cydnabod gwerth posibl meincnodi metrigau gweithlu'r Cyngor â chynghorau eraill, ychydig o enghreifftiau sydd o gymharu'n weithredol ac yn ystyrlon â sefydliadau eraill, sydd felly'n cyfyngu ar werth posibl asesu perfformiad, dysgu ohono a'i wella.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.